# TREHERNE (gynt THOMAS), GEORGE GILBERT TREHERNE (1837 - 1923), hynafiaethydd



**Enw:** George Gilbert Treherne Treherne
**Dyddiad geni:** 1837
**Dyddiad marw:** 1923
**Rhiant:** Rees Goring Thomas
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** hynafiaethydd
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Cyfraith
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Mab ieuengaf Rees Goring Thomas (gweler dan Morris, Ebenezer, 1790 - 1867) o Lannon (Caerfyrddin) a Surrey; Ganwyd 30 Rhagfyr 1837; aeth o Eton yn Ionawr 1857 i Goleg Balliol, Rhydychen, a graddiodd yn 1861 (Foster, *Alumni Oxonienses*); rhwyfodd dros y brifysgol yng ngornest 1859. Newidiodd ei gyfenw'n fuan wedi gadael Rhydychen. Derbyniwyd ef yn gyfreithiwr yn 1865, a daeth yn bennaeth ei ffyrm. Gan mai â stadau mawrion yn ne-orllewin Cymru yr oedd a fynnai llawer o'i waith fel cyfreithiwr, atynwyd ef at hanes a hynafiaethau'r wlad honno; a thyfodd yn awdurdod ar dref Talacharn a'i hamgylchedd - ymddiddorai'n neilltuol yn eglwys Cymyn; darganfu yno'r arysgrif Ladin ac Ogam enwog ' Avitoria ' (*An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire. Vol. V - County of Carmarthen*, 40), a chyhoeddodd ddau lyfr ar yr eglwys: *Eglwys Cymmin, The Story of an Old Welsh Church*, 1918, ac *Eglwys Cymmin Epitaphs*, 1920. Ymunodd yn 1904 â Chymdeithas Hynafiaethol Cymru, a chyfrannodd bapurau i *Archæologia Cambrensis* Ac yr oedd yn un o'r cwmni a sylfaenodd Gymdeithas Hynafiaethol Sir Gaerfyrddin (1905); ef oedd ei llywydd cyntaf, a chyfrannodd 25 o ysgrifau i'w thrafodion. Bu farw 26 Chwefror 1923, yn ei gartref yn Ringmer, Sussex. Na chymysger ef â hynafiaethydd arall, J. M. Traherne.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

G. Eyre Evans yn *Archaeologia Cambrensis*, 1923, 183-5

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 74247055

Wikidata: Q20748886

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu